*Birchgrove* · *Bishop Gore* · *Bishop Vaughan* · *Bishopston* · *Bryn Tawe* · *Cefn Hengoed* · *Dylan Thomas* · *Gowerton*

*Gwyr* · *Maes Derw* · *Morriston* · *Olchfa* · *Pentrehafod* · *Pen-Y-Bryn* · *Penyrheol* · *Pontarddulais*

Ebrill 2024

Annwyl rieni a gofalwyr,

Fel penaethiaid ysgolion uwchradd Abertawe, rydym yn canfod ein hunain mewn cyfnod argyfyngus o straen ariannol sy'n bygwth ehangder ac ansawdd y rhaglenni addysgol y gallwn eu cynnig i'n dysgwyr. Mae ein hysgolion yn wynebu heriau ariannol digynsail sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar grwpiau ymyrraeth, cefnogaeth i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), gweithgareddau allgyrsiol, a rhaglenni cyfoethogi.

Mae'r bwlch rhwng costau gweithredol cynyddol a'r cyllid sydd ar gael i'n hysgolion yn ehangu. Mae costau cynyddol egni, adnoddau a staffio, yng nghyd-destun codiadau annigonol yn y gyllideb, yn ein gosod mewn sefyllfa ansicr. Hyd yn oed gydag ymdrechion Dinas a Sir Abertawe i leddfu'r pwysau hwn, byddwn yn dal yn wynebu heriau ariannol sylweddol.

Gallai llawer o agweddau ar fywyd ysgol gael eu heffeithio'n andwyol gan gynnwys y canlynol:

- Grwpiau ymyrraeth, cymorth ADY a’r ystod o ddewis cwricwlaidd, yn arbennig cyrsiau galwedigaethol a darpariaeth cwricwlwm amgen. Gallai'r gostyngiad posib mewn cyllid arwain at leihad mewn ymyraethau wedi'u teilwra, lle mae dysgwyr yn dibynnu ar y rhain ar gyfer eu datblygiad academaidd a phersonol.
- Gweithgareddau allgyrsiol a chyfoethogi: mae'r profiadau cyfoethogi sy'n ymestyn dysgu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, gan gynnwys chwaraeon, y celfyddydau a theithiau diwylliannol, yn wynebu toriadau difrifol. Bydd y rhaglenni

hyn, sy'n hanfodol ar gyfer meithrin unigolion cyflawn a gwella ymgysylltiad dysgwyr, yn dod yn anoddach i'w fforddio ac efallai y bydd yn rhaid eu torri yn y dyfodol.
- Cymorth ar gyfer lles a gofal bugeiliol.

Er gwaethaf y realiti ariannol brawychus hwn, rydym yn parhau i fod yn gadarn yn ein hymroddiad i warchod cenhadaeth addysgol greiddiol ein hysgolion. Rydym yn archwilio pob llwybr i liniaru'r effaith ar ein dysgwyr, gan flaenoriaethu cynnal profiadau dysgu hanfodol a gwasanaethau cymorth.

Mae eich cefnogaeth a’ch dealltwriaeth yn hanfodol. Rydym yn eich annog i ymwneud â mentrau ysgol, p'un ai drwy wirfoddoli, cymryd rhan mewn ymdrechion codi arian, neu gefnogi’n eiriol gwell cyllid addysgol. Mae eich cyfranogiad yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yn ein gallu i gynnig profiad addysgol cyfoethog ac amrywiol.

Rydym yn ymrwymedig i dryloywder a chyfathrebu parhaus gyda chi wrth i ni lywio'r heriau hyn. Croesewir eich adborth a'ch awgrymiadau wrth i ni geisio atebion i'r cyfyngiadau ariannol hyn.

Diolch am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad yn ystod y cyfnod anodd hwn. Gyda'n gilydd, byddwn yn parhau i ymdrechu am ragoriaeth mewn addysg i'n holl ddysgwyr, gan sicrhau eu bod yn cael y cyfleoedd y maent yn eu haeddu i ffynnu.

Yn gywir,
Penaethiaid ysgolion uwchradd Abertawe

SCCASH

(Cymdeithas Penaethiaid Uwchradd Dinas a Sir Abertawe)